**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 20fed Rhagfyr, 2018 at 2.00 pm**

**PRESENT:** County Councillor P. Clarke (Chairman)
County Councillor (Vice Chairman)

County Councillors: D. Batrouni, M. Powell, V. Smith, D. Dovey, A. Easson, R. Edwards, D. Evans, P.A. Fox, R. Harris, J. Higginson, G. Howard, S. Howarth, D. Jones, P. Jones, S. Jones, S.B. Jones, P. Jordan, P. Murphy, F. Taylor, A. Watts, A. Webb, K. Williams, J.Becker, L.Brown, A.Davies, L.Dymock, M.Feakins, M.Groucutt, R.John, L.Jones, M.Lane, P.Pavia, J.Pratt, R.Roden and T.Thomas

## OFFICERS IN ATTENDANCE:

| | |
|---|---|
| Matthew Phillips | Head of Law/ Monitoring Officer |
| Paul Matthews | Chief Executive |
| Will Mclean | Chief Officer for Children and Young People |
| Nicola Perry | Senior Democracy Officer |
| Frances Williams | Chief Officer, Enterprise |
| Julie Boothroyd | Chief Officer Social Care, Safeguarding and Health |

## APOLOGIES:

County Councillors D. Blakebrough, R.J.W. Greenland, L. Guppy, B. Strong, J.Treharne and S. Woodhouse

**2. Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

Croesawodd y Cadeirydd Mrs Jones-Griffiths a oedd yn bresennol i siarad o blaid cynnig y Cynghorydd Batrouni ynghylch SENCOM. Siaradodd am ei merch bedwar mis oed y canfuwyd ei bod wedi colli clyw synhwyraidd dwyochrog yn ddifrifol ac yn sylweddol, sy'n golygu ei bod yn fyddar yn ddifrifol iawn ac na fydd byth yn clywed heb gymorth. Eglurodd Mrs Jones-Griffiths y gefnogaeth a'r manteision gwych a gafwyd drwy SENCOM. Roedd pryderon y byddai'r ad-drefnu SENCOM yng Nghasnewydd yn cael effaith ganlyniadol. Anogwyd yr Aelodau i gefnogi'r cynnig, fel rhywbeth y mae'n rhaid ei ymladd.

Gwnaeth y Cadeirydd y cynnig i'r eitem nesaf i'w drafod.

**4.1. O'r Cynghorydd Sirol D. Batrouni**

Councillor Batrouni had visited the centre and witnessed the incredible care and assistance provided. Concerns were that the regional service remains resilient for children of Monmouthshire.

The motion was seconded by Councillor Groucutt.

Roedd y Cynghorydd Batrouni wedi ymweld â'r ganolfan a gwelodd y gofal a'r cymorth anhygoel a ddarparwyd. Y pryderon oedd i'r gwasanaeth rhanbarthol i barhau i fod yn gadarn ar gyfer plant Sir Fynwy.

Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Groucutt.

Datganodd y Cynghorydd F. Taylor fuddiant nad oedd yn rhagfarnu fel aelod o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Gofynnodd y Cynghorydd Taylor a oedd ei gydweithwyr wedi gweld

asesiadau effaith neu asesiad cenedlaethau'r dyfodol, a gofynnodd i'r swyddogion gaffael a dosbarthu'r wybodaeth.

Roedd yr Aelodau yn unfryd eu cefnogaeth ac yn dilyn pleidlais wedi'i chofnodi, derbyniwyd y cynnig.

## 3. Cyhoeddiad y Cadeirydd a derbyn deisebau

Nodwyd adroddiad y Cadeirydd.

Cyflwynodd y Parchedig Gynghorydd M. Lane ddeiseb ar ran trigolion Coed y Brenin ynghylch pryderon traffig ar hyd Heol Henffordd.

Gofynnodd y Cynghorydd Howarth am i ymatebion i ddeisebau gael eu hadrodd yn ôl i'r Cyngor.

## 4. Rhestr o Gynigion

### 4.2. O'r Cynghorydd Sirol D. Batrouni

Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Williams.

Roedd yr Aelod Cabinet dros Gyllid yn cydymdeimlo â'r broblem ond mynegodd broblemau gyda pheirianwaith y cynnig, gan nodi'r anawsterau o ran yr agweddau ymarferol. Ni allai gefnogi'r cynnig fel y mae ar hyn o bryd.

Y teimlad cyffredinol ymysg y Blaid Geidwadol oedd bod hwn yn gynnig canmoladwy, gyda bwriadau da, ond yr oedd angen dadansoddiad pellach.

Cynigiodd y Cynghorydd K. Williams welliant i'r cynnig i ddatgan:

*Bod y Cyngor yn dechrau'r broses o '**archwilio'r posibilrwydd o**' gynyddu'r dreth gyngor ar ail gartrefi sydd wedi bod yn wag am dros 6 mis yn y flwyddyn ariannol nesaf. Yn nodi yr amcangyfrifir ei fod yn debygol o godi dros £200,000 y flwyddyn ac y bydd yn cael y fantais ychwanegol o annog pobl i beidio â phrynu eiddo Sir Fynwy fel cartrefi gwyliau nad ydynt ond yn byw ynddynt am ran o'r flwyddyn. Yn ogystal â gwrthbwyso rhywfaint o'r diffyg yn y gyllideb, mae'r grŵp Llafur yn annog y Cyngor i neilltuo £30,000 a godwyd o hyn, fesul blwyddyn, i helpu i ariannu gofalwyr lleol ifanc gyda'u ffioedd dysgu os ydynt yn mynd i'r brifysgol. Dylai unrhyw swm o'r arian sydd heb ei wario bob blwyddyn fynd i gronfa cyfiawnder cymdeithasol newydd wrth gefn er mwyn cefnogi agenda cyfiawnder cymdeithasol y Cyngor.*

Cafodd y gwelliant ei eilio a chafwyd dadl yn ei erbyn.

Yn dilyn trafodaeth, tynnwyd y gwelliant yn ôl a chafodd y pleidleisiau eu bwrw ar y cynnig gwreiddiol. Trechwyd y cynnig.

### 4.3. Oddi wrth y Cynghorydd Sirol T. Thomas

Tynnwyd y cynnig yn ôl.

Manteisiodd y Cynghorydd Thomas ar y cyfle i dynnu sylw at bryderon preswylwyr a defnyddwyr bysiau am yr arhosfan bysiau answyddogol ar Park Road. Mae'r adran Briffyrdd wedi dweud wrth gwmnïau bysiau am beidio â defnyddio'r arhosfan bysiau, ond maent yn parhau i wneud hynny. Esboniodd y broblem barhaus ynghylch arosfannau a llwybrau bysiau yn y Fenni.
.

### 4.4. Oddi wrth y Cynghorydd Sirol J. Watkins

Eiliodd y Cynghorydd Becker y cynnig.

Cefnogwyd y cynnig a chytunodd yr Aelod Cabinet i ysgrifennu at Drafnidiaeth Cymru gan obeithio daw gweithredu.

Gofynnodd y Cadeirydd am i arwyddion platfform gael eu crybwyll yn yr ohebiaeth.

Ar ôl cael pleidlais, cafodd y cynnig ei dderbyn.
.

## 5. Cwestiynau'r Aelodau:

### 5.1. Oddi wrth y Cynghorydd Sirol J. Becker i'r Cynghorydd Sirol P. Murphy

Ymatebodd yr Aelod Cabinet drwy ddweud y penodwyd Interserve i adeiladu Ysgolion Cyfun Cil-y-coed a Threfynwy. Agorodd Cil-y-coed ym mis Medi 2017 ac ar wahân i ddatrys mân ddiffygion mae Interserve wedi gorffen y contract hwn. Agorodd Ysgol Gyfun Trefynwy ym mis Medi 2018 ac mae gwaith ar ôl yn gysylltiedig â dymchwel yr hen adeiladau a chwblhau diffygion. Mae'r Cyngor eisoes yn gweithio ar gynlluniau wrth gefn a fyddai'n golygu y byddai Cyngor Sir Fynwy yn cymryd cyfrifoldeb am ddymchwel a datrys unrhyw ddiffygion sy'n weddill. Mae'r Cyngor yn dal cronfeydd cadw ar y ddau brosiect a fydd yn ein galluogi i gamu i mewn gydag ond canlyniadau ariannol cyfyngedig.

## 6. Adroddiadau'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol, Diogelu ac Iechyd

### 6.1. Cartref Gofal Crick Road

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Diogelu ac Iechyd adroddiad yn rhoi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran datblygu'r cartref gofal newydd a fydd yn cymryd lle Cartref Preswyl Severn View. Mae'r adroddiad yn rhoi manylion yr achos dros newid ac yn cyflwyno dyluniadau terfynol y cartref gofal a fydd ar safle Crick Road ym Mhorth Sgiwed.

Roedd yr adroddiad yn nodi'r opsiynau presennol ac yn ceisio cymeradwyaeth gan Aelodau'r Cyngor i symud y prosiect ymlaen i'r cam gweithredu.

Codwyd pryderon bod y Pwyllgor Dethol Oedolion wedi dadlau'n gryf o blaid uned o 48 gwely a gwnaed cais i gadw hyn mewn cof. Eglurodd y Rheolwr Gwasanaeth Integredig fod y meini prawf allweddol ar gyfer cyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru yn ymwneud â bod yn gyflawnadwy, ac ar hyn o bryd, hynny yw 32 gwely. Yr uchelgais yw 48 gwely, ond byddai angen gwaith partneriaeth gyda'r trydydd sector neu Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Ar ôl cael ei gyflwyno i'r bleidlais penderfynodd y Cyngor gytuno ar yr argymhellion:

Bod y Cyngor yn ystyried yr opsiynau a amlinellir isod a bod aelodau'n cymeradwyo cynllun Cartref Gofal Crick Road i fynd ymlaen i'r cam gweithredu fel y nodir yn opsiynau 3 ac yn Atodiad 1 (yr Achos dros Newid).

Bod aelodau'r Cyngor yn cefnogi'r cynigion a amlinellir yn Atodiad 1 (yr Achos dros Newid) i'w cynnwys yn y rhaglen gyfalaf 2019/20, gan ddeall bod Aelodau wedi tanysgrifio i unrhyw ychwanegiadau i'r rhaglen sy'n bodloni un o ddau amod:

- Naill ai bod y prosiect yn disodli rhywbeth sydd eisoes yn y rhaglen gyfalaf fel blaenoriaeth uwch, neu:
- Mae'r achos busnes yn amlwg yn gallu ariannu ei hun

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar fireinio'r costau a cheisio prisiad mwy diweddar ar gyfer safle Severn View a allai ail-lunio'r gost net a ragwelwyd i ddim. Fodd bynnag, ceir anghydbwysedd bach o hyd ac ar ôl ymgynghori â chydweithwyr cyllid, y bwriad fyddai gwneud cais ychwanegol i'r Cyngor Llawn i ddefnyddio hyd at uchafswm o £300 mil o dderbyniadau cyfalaf corfforaethol o'r hyn a ragwelwyd sydd ar gael erbyn diwedd 2018-19.

### 6.2. Strategaeth Ddigartrefedd Gwent

Derbyniodd y Cyngor adroddiad yn cyflwyno Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol Gwent arfaethedig 2018-2022 a'r Cynllun Gweithredu, gan gynnwys y camau penodol a gynigiwyd gan Sir Fynwy a oedd yn nodi'r dull o fynd i'r afael â digartrefedd ledled Gwent. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys adolygiad rhanbarthol o wasanaethau i'r digartref yng Ngwent, a lywiodd y gwaith o ddatblygu'r strategaeth.

Nid yw'r cwmni tai wedi'i ddiswyddo a gellid ei gynnwys yn y strategaeth.

Roedd Arweinydd yr Wrthblaid yn cwestiynu dyfeisgarwch y strategaeth, a gofynnodd beth oedd yn newydd a fyddai'n datrys y problemau a wynebir ar draws y sir. Eglurodd y Rheolwr Tai a Chymunedau fod nifer o sgyrsiau i'w cael o ran arloesi.

Cyfeiriodd aelod at y rhai sy'n cysgu allan yng Nghasnewydd ac roedd yn falch o weld y pum awdurdod yn gweithio gyda'i gilydd.

Ystyriodd aelod ar brofiadau personol a thynnodd sylw at bwysigrwydd atal.

**Ar ôl cael ei gyflwyno i'r bleidlais penderfynodd y Cyngor gytuno ar yr argymhellion:**

**Derbyn a mabwysiadu'r Strategaeth Ddigartrefedd Gwent ddrafft.**

## 7. <u>Adroddiad y Prif Swyddog, Plant a Phobl Ifanc</u>

### 7.1. Sefydlu tîm prosiect i gefnogi datblygiadau Ysgolion yr 21ain Ganrif ar gyfer Sir Fynwy

Derbyniodd y Cyngor adroddiad er mwyn ceisio cytundeb ar gyfer creu tîm newydd, wedi'i ariannu drwy raglen gyfalaf yr awdurdod ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif. Diben y tîm yw cefnogi'r gwaith o ddatblygu Achos Busnes Llawn ar gyfer y cyfrannau nesaf o fuddsoddiad cyfalaf yn rhaglen ailddatblygu Ysgolion yr 21ain Ganrif Cyngor Sir Fynwy. Y tu hwnt i'r cyfnod

cychwynnol hwnnw, bydd y tîm yn gyfrifol am holl gyswllt a rheolaeth rhaglenni'r rhaglen adeiladu ei hun.

Codwyd cwestiynau ynghylch y gwaith paratoi ar gyfer Ysgol Cas-gwent, a gofynnwyd am ymrwymiad cadarn y byddai'r ysgol yn parhau i fod yn ysgol gyfun ar ei ffurf bresennol. Dywedwyd bod angen i ni wneud datganiad clir o fwriad ynglŷn â'r addysg yn ysgol Cas-gwent.

Rhoddodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ymrwymiad clir i Ysgol Cas-gwent a dywedodd ei fod wedi dweud yn glir fod hwn yn brosiect adnewyddu 4 ysgol sydd hanner ffordd i'w gwblhau.

Ychwanegodd yr Arweinydd y dylid cydnabod cyfyngiadau ariannol a chefnogi cam nesaf y rhaglen.

Datganodd y Cynghorydd Sirol R. Harris fuddiant personol, nad yw'n rhagfarnu, fel llywodraethwr yn Ysgol Deri View.

Datganodd y Cynghorydd Sirol T. Thomas fuddiant personol, nad yw'n rhagfarnu, fel llywodraethwr yn Ysgol Gymraeg y Fenni.

Cwestiynwyd yr ymrwymiad ynglŷn â'r ffrwd mynediad dwy ffurf Gymraeg yn y datblygiad newydd. Eglurodd yr Aelod Cabinet fod y ffrwd cyfrwng Cymraeg yn rhan allweddol o'r Cynllun Strategol Addysg Gymraeg, a disgwylir i ymgynghori ddigwydd. Mae ymrwymiad clir i roi dewis i rieni o ble y caiff eu plant eu haddysgu.

**Ar ôl cael ei gyflwyno i'r bleidlais penderfynodd y Cyngor gytuno ar yr argymhellion:**

**I gymeradwyo creu Tîm Prosiect i sicrhau cwblhau achos busnes cadarn a helaeth, ymgymryd â gweithgarwch sy'n briodol i'w ddad-beryglu er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn parhau i fod o fewn paramedrau fforddiadwyedd a gweithredu fel yr ochr cyswllt cleientiaid yn y cyfnod adeiladu.**

**I gymeradwyo bod y tîm hwn yn cael ei ariannu gan y rhaglen gyfalaf i baratoi ar gyfer dechrau adeiladu ysgol newydd i bawb yn y Fenni. Os na fydd yr Achos Busnes Llawn yn cael cefnogaeth y Cyngor neu Lywodraeth Cymru bydd yn rhaid dileu'r costau hyn i gyfrif refeniw; os felly, dylai'r Gronfa Buddsoddi Cyfalaf dalu amdanynt.**

**Cymeradwyo creu tîm i fod yn cynnwys swyddogion ar secondiad o sefydliad presennol yr awdurdod lleol a chytuno y dylid ôl-lenwi'r swyddi hyn lle bo hynny'n briodol ac yn angenrheidiol**

**I nodi y bydd ffurf a phwrpas y tîm hwn yn addasu ac yn newid dros amser yn dibynnu ar y cam o ddatblygiad y rhaglen ac y gall fod diwygiadau yn y dyfodol yn y dyfodol. Oherwydd y gofyniad posibl i newid ffurf y tîm, argymhellir y dylai'r Cyngor ddirprwyo'r cyfrifoldeb dros ddiwygiadau yn y dyfodol i'r Aelod Cabinet dros Addysg mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog, Plant a Phobl Ifanc.**

## 8. I gadarnhau cofnodion cyfarfodydd y Cyngor Sir ar 25ain Hydref 2018

Cafodd cofnodion cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 25ain Hydref 2018 eu cymeradwyo a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

Wrth wneud hynny nodasom ddiwygiad yn y datganiad buddiannau. Dylid darllen y Cynghorydd Roger Harris, nid Roger Hoggins.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 20fed Rhagfyr, 2018 at 2.00 pm**

## 9. I nodi Rhestr Weithredu'r Cyngor Sir

Cyfeiriodd y Cynghorydd Batrouni at gynnig ynghylch y Cwmni Tai a gofynnodd am ychwanegu ymrwymiad i hyn ddod nôl at y Cyngor i'r rhestr weithredu.

## 10. I nodi'r cofnodion canlynol:

### 10.1. Y Pwyllgor Archwilio 13eg Medi 2018

Nodwyd.

### 10.2. Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd 24 Medi 2018

Nodwyd.

### 10.3. Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 18 Gorffennaf 2018

Nodwyd.

**The meeting ended at Time Not Specified**